**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2000

**Cefndir**

Mae’r Rheoliadau hyn yn berthnasol i ddarpariaethau yn y Ddeddf Cyllid Llywodraethol Leol 1992 yngln â :

-chyfrifiadau gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref o’u hanghenion cyllidebol (adran 32),

-chyfrifiadau gan fath gynghorau o’r "swm sylfaenol" o’u treth cyngor (adran 33),a

-chyfrifiadau anghenion cyllidebol prif awdurdodau praeseptio, sef awdurdodau heddlu (adran 43).

Mae pob un o’r adrannau uchod yn cynnwys per sy’n galluogi i’r Cynulliad wneud rheoliadau yn diwygio rhai elfennau o’r adrannau hynny mewn cysylltiad a’r dull o gyfrifo ymhob achos.

Pan fo deddfwriaeth eilradd yn diwygio testun deddfwriaeth gynradd, mae’n arfer i gymryd barn Cwnsel Seneddol ar eirfa’r newidiadau testun.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Cyn adrodd i'r Cynulliad y dylai gymryd sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cael ei awgrymu, mae rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Deddfau hysbysebu'r bwriad i wneud i'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol. Mae gan yr Ysgrifennydd wedyn hawl i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ac i ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi.

Casglir felly y dylid gofyn y cwestiynau canlynol i'r Ysgrifennydd Cynulliad:

1. Mae adran 33(4) dim ond yn galluogi i reoliadau o dan adran 32(9) wneud diwygiadau dilynol i adran 33, a dydy'r rheoliadau presennol ddim yn cynnwys darpariaeth sydd wedi'i wneud yn uniongyrchol o dan adran 32(9). Yn ystyried hyn, ydy hi'n bosibl i gadarnhau (gydag esboniad) fod y diwygiadau a wnaed i adran 32 gan y rheoliadau blaenorol yn berthnasol i'r diwygiadau presennol, fel y gellir cyfiawnhau y casgliad fod y rheoliadau presennol yn gwneud newidiadau i adran 33 sy'n dilyn o newidiadau a wnaed i adran 32?

2. Gan fod adran 33 (3D) o Ddeddf 1992, mewnosodwyd gan OS 1999/296, yn ymddangos fel petai'n berthnasol is-adran (3C) (mewnosodwyd hefyd gan OS 1999/296), a ddylsai'r rheoliadau ddarparu ar gyfer dileu is-adran (3D) yn ogystal ag is-adran (3C)?

**Sylwadau ar y Rheoliadau**

**Nodyn Esboniadol**

Buasai'n ddefnyddiol os oedd y paragraff cyntaf yn esbonio'n fras beth yw "awdurdod praeseptio".

Bysai'r geiriau "respectively" ac "yn eu trefn" wedi'u lleoli'n well ar ôl y cyfeiriad i'r ddau fath o awdurdod.

Efallai bysai testun Saesneg yr ail baragraff yn well petai "of them" yn cael ei ddileu.

Hefyd yn yr ail baragraff , mae'n ymddangos fel buasai lleoliad y frawddeg olaf yn well os fyddai ar ddiwedd y nodyn esboniadol.

Mae yn hefyd bwynt sy'n codi yn y testun Cymraeg o'r paragraff cyntaf a'r trydydd paragraff. Teimlir y bysai "prif awdurdod" a "prif awdurdodau" yn cyfleu ystyr "major (precepting) authority(ies)" yn well na "awdurdod pennaf".

**Troednodion**

Bydd angen lleoli y rhain ar waelod eu tudalennau priodol yn y fersiwn printiedig terfynol.

**Rheoliad 3(2) a (3)**

Dylsai "isadran"/"subsection" gael ei fewnosod ar ôl "Yn lle"/"For" yn y ddau achos.

**JOHN H TURNBULL**

Cynghorydd Cyfreithiol

Pwyllgor Deddfau

**3ydd Chwefror 2000**

LC47

Ein cyf: LAD-01-01-070

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (**

**Cy. )**

**LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2000**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

**The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2000**

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn nodi yn eu trefn sut mae awdurdod bilio ac awdurdod praeseptio pennaf i gyfrifo'u hanghenion cyllidebol am flwyddyn ariannol ac mae adrannau 33 a 44 o Ddeddf 1992 yn nodi yn eu trefn sut mae'r awdurdodau hyn i gyfrifo swm sylfaenol eu treth gyngor.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i'r cyfrifiadau sy'n angenrheidiol o dan adran 33 o Ddeddf 1992 fel y maent yn gymwys i'r awdurdodau bilio yng Nghymru. Effaith y Rheoliadau yw dileu'r gofyniad (a ragnodwyd yn adran 33(3C)) y byddai'n ofynnol, pan fyddai cyllideb awdurdod o'r fath yn fwy na swm rhagnodedig, i'r awdurdod gynyddu swm sylfaenol ei dreth gyngor er mwyn cymryd i ystyriaeth ostyngiad dilynol yn y cymhorthdal ar gyfer budd-dâl y dreth gyngor a gâi ei dalu iddo. Mae i'r newidiadau hyn effaith ar 29 Chwefror 2000.

Darparodd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 1999 na ddylai'r "police grant" fel y'i diffinnir yn adran 43(6A) o Ddeddf 1992 fod yn gymwys i'r awdurdodau praeseptio pennaf yng Nghymru, gan osod yn ei le ddiffiniad amgen a oedd yn gymwys i adrannau 43 a 44 o Ddeddf 1992. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i'r diffiniad amgen drwy amnewid diffiniadau newydd yn adran 43(6C) a (6D).

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Sections 32 and 43 of the Local Government Finance Act 1992 ("the 1992 Act") set out respectively how a billing authority and a major precepting authority are to calculate their budget requirements for a financial year and sections 33 and 44 of the 1992 Act set out respectively how such authorities are to calculate the basic amount of their council tax.

These Regulations make further amendments to the calculations required by section 33 of the 1992 Act as they apply to billing authorities in Wales. The effect of them is to remove the requirement (which was prescribed in section 33(3C)) that when such an authority’s budget exceeded a prescribed figure, the authority would be required to increase the basic amount of its council tax to take account of a consequent reduction in the council tax benefit subsidy which would be paid to it. These changes take effect on 29th February 2000.

The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 1999 provided that "police grant" as defined in section 43(6A) of the 1992 Act should not apply to major precepting authorities in Wales and substituted an alternative definition which applied to sections 43 and 44 of the 1992 Act. These Regulations make further amendments to the alternative definition by substituting new definitions in section 43(6C) and (6D).

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (**

**Cy. )**

**LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2000**

*Wedi'u gwneud 2000*

*Yn dod i rym 29 Chwefror 2000*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 32(9)[a], 33(4)[b], 43(7) a 113 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sydd bellach wedi'u breinio ynddo i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru [c].*

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 29 Chwefror 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at adran â rhif yn gyfeiriad at adran o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

**LOCAL GOVERNMENT, WALES**

**The Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2000**

**Made 2000**

*Coming into force 29th February 2000*

*The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 32(9)[a], 33(4)[b], 43(7) and 113 of the Local Government Finance Act 1992 which are now vested in it so far as exercisable in Wales[c].*

**Citation, commencement, application and interpretation**

**1.-**(1) These Regulations may be cited as the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 29th February 2000.

(2) These Regulations apply only to Wales.

(3) In these Regulations a reference to a numbered section is a reference to a section of the Local Government Finance Act 1992.

**Cyfrifo swm sylfaenol y dreth (awdurdodau bilio)**

Calculation of basic amount of tax (billing authorities)

**2.** Yn adran 33, hepgorer isadran (3C)[(ch)].

2. **In section 33, omit subsection (3C)[(d)].**

**Cyfrifo anghenion cyllidebol (awdurdodau praeseptio pennaf)**

Calculation of budget requirement (major precepting authorities)

**3.**-(1) Diwygir adran 43[(d)] fel a ganlyn.

3.**-(1) Section 43[(e)] is amended as follows.**

(2) Yn lle (6C), gosoder -

**(2) For (6C), substitute –**

**"(6C) In relation to a major precepting authority in Wales in this section and section 44 below "police grant" means the total amount of grant payable to that authority in accordance with the relevant police grant report.".**

**"(6C) In relation to a major precepting authority in Wales in this section and section 44 below "police grant" means the total amount of grant payable to that authority in accordance with the relevant police grant report.".**

(3) Yn lle (6D) gosoder -

**(3) For (6D) substitute –**

"(6D) In subsection (6C) above "the relevant police grant report" means for a financial year commencing on or after 1st April 2000 the police grant report for that year approved by a resolution of the House of Commons pursuant to section 46 of the Police Act 1996[(dd)].".

**"(6D) In subsection (6C) above "the relevant police grant report" means for a financial year commencing on or after 1st April 2000 the police grant report for that year approved by a resolution of the House of Commons pursuant to section 46 of the Police Act 1996[(f)].".**

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998[(e)]

**Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998[(g)]**

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**The Presiding Officer of the National Assembly**

(a) 1992 p.14; diwygiwyd adran 32(9) gan baragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19).

(b) Diwygiwyd Adran 33 gan baragraff 5 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru)1994,

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1994 (O.S. 1994/246), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1995 (O. S. 1995/234) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) (O.S. 1999/296).

(c) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(ch) Mewnosodwyd Adran 33(3C) gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/296).

(d) Diwygiwyd Adran 43 gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1995 (O.S. 1995/234) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/296).

(dd) 1996. p.16.

(a) 1992 c.14; section 32(9) was amended by paragraph 4 of Schedule 12 to the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19).

**(b) Section 33 was amended by paragraph 5 of Schedule 12 to the Local Government (Wales) Act 1994, the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations and Funds) Regulations 1994 (S.I. 1994/246), the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations and Funds) Regulations 1995 (S. I. 1995/234) and the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/296).**

(c) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(d) Section 33 (3C) was inserted by the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/296).

(e) Section 43 was amended by the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations and Funds) Regulations 1995 (S.I. 1995/234) and the Local Authorities (Alteration of Requisite Calculations) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/296).

(f) 1996. c.16.

(e) 1998 p.38.

(g) 1998 c.38.